

Deisebu'r Cynulliad



Ni yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ni yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Deisebu'r Cynulliad

A ydych chi'n teimlo'n gryf am fater sy'n effeithio arnoch chi neu'ch cymuned? Gwnewch yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed gan y Cynulliad Cenedlaethol - trefnwch neu lofnodwch ddeiseb.

Pan fyddwch yn trefnu deiseb, rydych chi'n gofyn i ni edrych ar fater, problem, neu gynnig. Rhaid iddo fod yn ymwneud â rhywbeth sydd wedi'i ddatganoli i Gymru y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru y pŵer i'w newid.

Pan fyddwch chi'n llofnodi deiseb, rydych chi'n dangos eich cefnogaeth. Rydych chi'n cefnogi eraill sy'n teimlo yr un peth â chi ynglŷn â'r mater. Rydych chi'n ymuno fel cymuned i wneud i rywbeth ddigwydd.

Deisebu'r Cynulliad yw un o'r ffyrdd mwyaf uniongyrchol y gallwch godi eich pryderon. Deisebwch ni i awgrymu polisi newydd, ffyrdd gwahanol o wneud pethau neu i newid rhywbeth yng Nghymru.

Gallwch chi drefnu deiseb a gweld eraill sy'n casglu llofnodion nawr wrth ymweld â www.cynulliad.cymru/deisebau.



Sut mae deiseb yn gweithio?

Mae trefnu deiseb gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn hawdd. Cofiwch, nad ydych ar eich pen eich hun - bydd y tîm Deisebau'n eich cefnogi bob cam.

Pan fyddwch chi'n dechrau, efallai na fyddwch chi'n gwybod beth i'w ddisgwyl. Yn gyffredinol, bydd angen i chi:

- **Ysgrifennu eich deiseb** – gallwn ddarparu cymorth i'ch helpu i wneud hyn os bydd ei angen arnoch chi.
- **Anfon eich deiseb atom i'w gwirio** – bydd angen i ni wirio'ch deiseb i wneud yn siŵr y gallwn ei derbyn.
- **Casglu llofnodion** – bydd angen i chi gasglu o leiaf 50 o lofnodion er mwyn i'r Pwyllgor Deisebau ei hystyried.
- **Trosglwyddo eich deiseb** – ar ôl i chi gasglu eich holl lofnodion, gallwch ei throsglwyddo i'r Pwyllgor Deisebau yn y Senedd. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar eich deiseb ac yn penderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf.

Gallwch ddarganfod mwy am y broses trwy ymweld â www.cynulliad.cymru/deisebau.



Ysgrifennu'ch deiseb

Gall rhoi'ch syniad am ddeiseb mewn geiriau fod yn anodd - ond rydyn ni yma i'ch helpu.

Mae ychydig o ofynion y mae'n rhaid i'ch deiseb eu bodloni:

A oes gennych ganolfan yng Nghymru?

Nid ydym ond yn ystyried deisebau a gyflwynir gan bobl sy'n byw yng Nghymru neu a gyflwynir gan sefydliadau sydd â chanolfan yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y materion sy'n bryder gwirioneddol i bobl Cymru.

Beth ydych chi'n gofyn amdano?

Rhaid i'ch deiseb ymwneud â mater, problem, neu gynnig sydd wedi'i ddatganoli i Gymru. Rhywbeth sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru'r pŵer i'w newid. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â ni a byddwn yn egluro'r mathau o faterion y gall y Pwyllgor Deisebau eu hystyried.

Pwy sydd â'r pŵer i wneud yr hyn rydych chi'n ei ofyn?

Dylai eich deiseb ofyn i ni, neu i Lywodraeth Cymru wneud neu newid rhywbeth. Ni allwn edrych ar faterion sy'n gyfrifoldeb i awdurdodau lleol oherwydd bod ganddynt eu ffordd eu hunain o wneud pethau.

Gallwch ddarganfod mwy am ysgrifennu deiseb trwy ymweld â www.cynulliad.cymru/deisebau.

Anfonwch eich deiseb atom i'w gwirio

Rydych chi wedi cael eich syniad a'i roi
ar bapur. Nawr mae'n bryd anfon eich
geiriad atom ni.

Bydd angen i'r tîm Deisebau wirio a yw'n dderbyniadwy neu'n
annerbyniadwy.





Mae **deiseb dderbyniadwy** yn un sy'n ymwneud â mater datganoledig, ac sy'n bodloni ein gofynion. Ni allwn ond edrych ar ddeisebau derbyniadwy. Os yw'ch deiseb yn dderbyniadwy, gallwch ddechrau casglu llofnodion.



Mae **deiseb annerbyniadwy** yn un sy'n ymwneud â rhywbeth sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU neu'ch awdurdod lleol. Os nad cyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth Cymru yw'r mater, ni allwn edrych arno.

Os yw'ch deiseb yn **annerbyniadwy** byddwn yn esbonio pam, neu fe wnawn ni eich helpu i'w newid.

Rydym yn cyhoeddi rhestr o ddeisebau annerbyniadwy ar ein gwefan. Mae'r rhestr hon yn helpu pobl i weld pam na allwn dderbyn deisebau penodol.

Gallwch ddarganfod mwy am ysgrifennu deiseb trwy ymweld â www.cynulliad.cymru/deisebau.



Casglu Llofnodion

Rydym wedi edrych ar eich deiseb a phenderfynu ei bod yn dderbyniadwy. Nawr gallwch chi gasglu llofnodion.

Mae yna ychydig o ffyrdd y gallwch chi gasglu'ch llofnodion:

System e-ddeisebau'r Cynulliad Cenedlaethol:

Mae gennym ein system e-ddeisebau ein hunain. Mae hyn yn eich galluogi i gasglu llofnodion trwy ein gwefan. Os ydych chi'n defnyddio'r system hon, byddwn yn gwirio a yw eich deiseb yn dderbyniadwy yn awtomatig.



Ar bapur:

Rydym yn derbyn y deisebau papur mwy traddodiadol hefyd. Gallwn roi cyngor a thempledi i chi ar gyfer deisebau papur.

Systemau deisebau amgen:

Gallwn weithiau dderbyn deisebau sydd wedi casglu llofnodion trwy wefan arall. Fodd bynnag, os nad ydych wedi siarad â ni am eich deiseb ni cheir unrhyw warant y bydd yn dderbyniadwy - hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi casglu 50 o lofnodion neu fwy. Dylech gysylltu â'r tîm i drafod.

Mae angen i bob deiseb yr ydym yn edrych arni ei fod wedi casglu o leiaf 50 o lofnodion cyn y gall symud i'r cam nesaf. Os byddwch yn casglu 5,000 o lofnodion neu fwy, byddwn yn ystyried eich deiseb ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn - lle y gall pob un o'r 60 Aelod Cynulliad drafod y mater a godwyd gennych.





Cyflwyno'ch deiseb

Rydych chi wedi casglu'ch llofnodion, ac rydych chi'n barod i roi'ch deiseb i'r Pwyllgor Deisebau.

Unwaith y byddwch wedi casglu'ch llofnodion, gallwch ei rhoi i aelodau'r Pwyllgor yn bersonol. Mae hon yn ffordd bositif a phoblogaidd i chi orffen y rhan hon o'r broses ddeisebu.

Mae rhoi eich deiseb yn bersonol yn rhoi'r cyfle i chi gyfarfod ag aelodau'r Pwyllgor. Gallwch chi sgwrsio â nhw am eich deiseb, a rhannu'r stori y tu ôl iddi.

Mae hefyd yn gyfle i gael cyhoeddusrwydd ar gyfer eich deiseb. Byddwn yn tynnu lluniau ohonoch yn trosglwyddo'r ddeiseb i'r Pwyllgor. Byddwn yn cyhoeddi'r lluniau hyn ar ein cyfrif Flickr fel y gallwch eu defnyddio ar eich cyfryngau cymdeithasol eich hun.

Os na allwch drosglwyddo'ch deiseb yn bersonol - peidiwch â phoeni. Mae'n opsiwn ond nid yw'n ofynnol.

Os hoffech chi wneud hyn, cysylltwch â'r tîm Deisebau:

senedddeisebau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

Gallwch ddarganfod mwy am gyflwyno eich deiseb i'r Pwyllgor trwy ymweld â **www.cynulliad.cymru/deisebau**



Beth sy'n digwydd nesaf?

Rydych chi wedi cyflwyno'ch deiseb i'r Pwyllgor Deisebau. Nawr gall Aelodau'r Pwyllgor edrych ar eich mater.

Mae rhai pethau y gall y Pwyllgor Deisebau eu gwneud:

- **Casglu gwybodaeth am eich mater:** Bydd y Pwyllgor yn casglu gwybodaeth. Bob tro mae'r Pwyllgor yn cael mwy o wybodaeth am y ddeiseb byddant yn edrych arni eto. Fe gewch gyfle bob amser i roi sylwadau cyn i'r Pwyllgor benderfynu beth sy'n digwydd nesaf.
- **Gwahodd pobl i siarad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Deisebau:** Gall y Pwyllgor wahodd pobl i gyfarfod fel y gallant ddarganfod mwy am y ddeiseb. Efallai y byddant yn gofyn i siarad â chi, Llywodraeth Cymru, sefydliad neu arbenigwr ar y pwnc.
- **Cynnal ymchwiliad byr i'r mater:** Gallai'r Pwyllgor gymryd yr holl wybodaeth y maent wedi'i chasglu, a'i defnyddio i gynhyrchu adroddiad. Yn yr adroddiad, byddant yn dweud yr hyn y maent yn ei feddwl y dylai ddigwydd mewn ymateb i'r mater.
- **Gofyn i bwyllgor arall edrych ar y mater:** Aelodau'r pwyllgor hwnnw fydd yn penderfynu a fydd eu pwyllgor yn ystyried y mater. Byddant eisoes wedi cynllunio eu gwaith, ond mae'n bosib y gallent ymchwilio i'r mater fel rhan o'u gwaith.

Cwrdd â'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn grŵp o bum Aelod Cynulliad sy'n edrych ar bob deiseb dderbyniadwy a dderbyniwn.

Pan fyddwch yn rhoi eich deiseb i'r Pwyllgor Deisebau, rydych yn ei rhoi i'r Aelodau Cynulliad hyn i edrych arni a gweithio arni.



David J Rowlands AC

UKIP
Dwyrain De Cymru



Rhun ap Iorwerth AC

Plaid Cymru
Ynys Môn



Mike Hedges AC

Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Neil McEvoy AC

Aelod Annibynnol
Canol De Cymru



Janet Finch-Saunders AC

Y Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy

Cysylltwch â ni

Nawr eich bod yn gwybod sut mae deiseb yn gweithio a sut i drefnu un - rydym am glywed gennych.

Mae llawer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni a chael gwybod mwy am ein gwaith. Gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod, neu gallwch ddod i'r Senedd ym Mae Caerdydd i siarad â ni yn bersonol.



www.cynulliad.cymru/deisebau



senedddeisebau@cynulliad.cymru



0300 200 6565



@SeneddDeisebau



CynulliadCenedlaetholCymru



Y Senedd, Bae Caerdydd, CF99 1NA